# Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

**2010 mccc 3**

## 10 Arolygu

Caiff Gweinidogion Cymru benodi person (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel "person penodedig") i ganfod—

(a) a yw'r wybodaeth sydd wedi ei darparu mewn unrhyw ddatganiad yn gywir;

(b) a yw nifer yr anifeiliaid y mae'r ardoll wedi'i seilio arno yn gywir;

(c) a yw'r ardoll sy'n ddyledus o dan y Mesur hwn wedi ei thalu; a

(d) a oes tramgwydd o dan y Mesur hwn yn cael neu wedi cael ei gyflawni.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I2** A. 10 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, Adran 10.